Cynllun Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2026

# Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol

## Crynodeb 10 pwynt

1

### Cyfeiriad cenedlaethol clir ar gyfer llythrennedd a rhifedd

Mae'r cynllun yma gan Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2026, yn nodi dull gweithredu ar draws y system gyfan i godi safonau, gan gydnabod bod llythrennedd a rhifedd yn sylfeini hanfodol ar gyfer pob math o ddysgu.

2

### Adnabod a chefnogi anghenion yn gynnar

Mae tlodi, ADY ac anghenion ieithyddol yn ystyriaethau canolog. Rhoddir pwyslais ar adnabod anghenion yn gynnar a darparu cymorth priodol ar yr adeg briodol ym mhob cyfnod.

3

### Rhieni a gofalwyr fel partneriaid allweddol

Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu adnoddau hygyrch yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ieithoedd cymunedol er mwyn helpu teuluoedd i ddeall sut mae llythrennedd a rhifedd yn cael eu haddysgu a sut i gefnogi dysgu gartref.

4

### Cryfhau'r sylfeini yn y blynyddoedd cynnar (0–3)

Rhoddir blaenoriaeth i ddatblygiad plant, amgylcheddau sy'n gyfoethog o ran iaith a dysgu drwy chwarae. Bydd dysgu proffesiynol a dulliau gweithredu dwyieithog, er enghraifft Prosiect Pengwin, yn cefnogi'r gwaith o adnabod anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gynnar.

5

### Disgwyliadau clir ar gyfer addysgu (3–16)

Bydd canllawiau statudol ar gyfer llythrennedd a rhifedd, fesul blwyddyn, yn cael eu cyhoeddi yn 2027 er mwyn cefnogi cynnydd, herio dysgwyr mwy abl a sicrhau cysondeb.

6

### Disgwyliad clir ar gyfer ffoneg synthetig systematig

Bydd canllawiau'r cwricwlwm yn cael eu diweddaru er mwyn gwneud y disgwyliadau'n glir. Bydd darpariaeth ffoneg Gymraeg a Saesneg yn cael ei hadolygu a'i chryfhau, gan gynnwys canllaw cenedlaethol ar ffoneg i ysgolion.

7

### Ymarfer llythrennedd a rhifedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Bydd paneli arbenigol ar lythrennedd a rhifedd yn llywio dulliau gweithredu cenedlaethol. Bydd cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael eu hehangu drwy Dysgu, Adnodd a CAL:ON.

8

### Asesu cryfach a defnydd mwy effeithiol o ddata

Bydd ysgolion yn cael eu cefnogi i ddefnyddio ystod eang o wybodaeth asesu i ddeall mannau cychwyn dysgwyr, monitro eu cynnydd a gosod targedau ystyrlon ac uchelgeisiol.

9

### Y Gymraeg wrth wraidd y ddarpariaeth

Mae llythrennedd Cymraeg yn cael ei ystyried yn rhan annatod o gyfathrebu, nid yn rhywbeth ar wahân. Bydd egwyddorion cenedlaethol newydd ar gyfer addysgu'r Gymraeg rhwng 0 a 16 oed yn cael eu sefydlu.

10

### Cydweithio ar draws pob un o'r pum sylfaen

Rhaid i rieni, ymarferwyr y blynyddoedd cynnar, athrawon, arweinwyr a phartneriaid cymorth gydweithio. Mae'r cynllun yn pwysleisio cyfrifoldeb ar y cyd, arfer cyson a chymorth cydgysylltiedig i ddysgwyr.



© Monster Phonics 2026